| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR BUDDSODDI A CHONTRACTAU** |
| **DYDDIAD** | **1 TACHWEDD 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Dyrannu cyllid ar gyfer Grantiau Mawr** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cytuno ar swm i'w ddyrannu ar gyfer grantiau mwy yn 2017.** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Trysorydd – Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn** |
| **GWEITHREDU** | **Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan Reolwyr Buddsoddi'r Ymddiriedolaeth, cytuno ar swm a ddefnyddir i gyllido grantiau mawr a ddyfernir gan yr Ymddiriedolaeth yn 2017.** |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1.** Dechreuodd yr Ymddiriedolaeth Elusennol ddyfarnu grantiau mawr yn 2014. Ni ddilynwyd unrhyw broses ffurfiol i wahodd ceisiadau ac fe ystyriwyd pob achos yn unigol. Mae dyfarnu'r grantiau cychwynnol wedi arwain at fwy o sefydliadau yn dod ymlaen i ofyn am arian ar gyfer prosiectau penodol ac arian i helpu gyda chostau rhedeg.

**1.2.** Wrth i'r gronfa barhau i dyfu mae'n cynhyrchu incwm ar ffurf llog blynyddol a difidendau ond hefyd mae gwerth cyfalaf y gronfa wedi tyfu dros amser. 'Roedd Aelodau'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i ddefnyddio rhywfaint o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y gronfa i ddarparu cyllid ar gyfer rhoi grantiau mwy, a hynny ar sail fwy ffurfiol.

**1.3.** Yn gynnar yn 2016, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth neilltuo swm o £200,000 a oedd yn cyfateb i 20% o'r twf yng ngwerth y cyfalaf yn y flwyddyn er mwyn ariannu grantiau yn 2016.

**1.4.** Yn dilyn proses o wneud ceisiadau, derbyniodd 4 sefydliad arian grant yn 2016.

**1.5.** Yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2016, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth ddyrannu cyllid ar gyfer grantiau mwy, a dirprwyodd y penderfyniad ynghylch maint y swm hwnnw i'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau.

**1.6.** Yn dilyn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau, gweithredir proses ymgeisio ffurfiol i wahodd sefydliadau i gyflwyno ceisiadau. Y bwriad yw y bydd y broses yn agored i sefydliadau gyflwyno ceisiadau rhwng mis Tachwedd 2016 ac Ionawr 2017, gyda'r penderfyniad ar ba sefydliadau fydd yn derbyn arian yn cael ei wneud ym mis Chwefror 2017.

## 2. DYRANNU CYLLID

**2.1.** Ym mis Chwefror 2016, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth neilltuo 20% o'r twf yng ngwerth cyfalaf y gronfa i ariannu'r grantiau mwy. O ystyried gwerth y twf, 'roedd y ganran hon yn darparu cronfa resymol heb erydu gwerth y gronfa fuddsoddi yn sylweddol.

**2.2** Dylid nodi bod risg bob amser y gall gwerth cyfalaf y gronfa ostwng ac y gallai dyrannu swm rhy uchel, mewn cyfnod lle mae gwerth cyfalaf y gronfa yn tyfu, gael effaith andwyol ar yr elw a geir o'r buddsoddiadau yn y dyfodol os bydd gwerth cyfalaf y gronfa yn dechrau gostwng yn sydyn.

**2.3** Rhaid i'r Pwyllgor felly gymryd i ystyriaeth y cyngor a roddir gan y Rheolwr Buddsoddi cyn penderfynu ar faint y swm i’w ddyrannu, gan sicrhau bod y gronfa yn ddigon mawr i alluogi'r Ymddiriedolaeth i helpu cymaint o sefydliadau â phosibl heb beryglu’r lefelau incwm a gynhyrchir gan y gronfa yn y dyfodol. Bydd y Rheolwr Buddsoddi ar gael yn y cyfarfod i roi cyngor priodol.

## 3 Y CAMAU SYDD ANGEN EU CYMRYD

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried penderfynu ar y swm i'w ddyrannu ar gyfer grantiau mawr, a hynny’n seiliedig ar y wybodaeth a'r cyngor a ddarperir gan y Rheolwr Buddsoddi.

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **26 HYDREF 2016**